**LC156**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) (Diwygio) (Cymru) 2001

**Y cefndir**

Mae Deddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999 yn trosglwyddo swyddogaethau gweinyddol clercod ustusiaid i brif weithredwyr.

Mae Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Cynlluniau Cymorth Ymddygiad) 2001 yn cynnwys "the clerk to the justices" ymhlith y personau a'r cyrff y mae'n rhaid ymgynghori â hwy pan fydd awdurdod addysg lleol yn paratoi cynllun sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer addysgu plentyn y mae ganddo broblemau ymddygiad (Deddf Addysg 1996 adran 527A).

Yn sgil y newidiadau a roddwyd ar waith gan Ddeddf 1999, mae'r Rheoliadau presennol yn diwygio Rheoliadau 1998 fel bod y cyfeiriad at glerc yn cael ei newid i gyfeiriad at brif weithredwr. Mae'r un diwygiadau'n cael eu gwneud ar gyfer Lloegr.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Nodir bod y testun Cymraeg a'r testun Saesneg wedi'u gosod fel dogfennau ar wahân. Bydd angen eu cyfuno'n un ddogfen ar gyfer y cyhoeddi.

Mae yna wall teipograffyddol ym mharagraff cyntaf testun Cymraeg y Nodyn Esboniadol hefyd, y bydd angen ei gywiro.  Rhoddir blwyddyn anghywir, sef 1997, ar gyfer blwyddyn Deddf Cyfle i Gael Cyfiawnder 1999.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

6 Chwefror 2001